# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc/ *Clerk* | 26 Stryd Fawr |
| **Caroline Jones** | Bethesda |
| 01248 602131 | Gwynedd |
| cyngorLlanllechid@ogwen.org | LL57 3AE |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd ar nos Iau yr 12fed o Fawrth 2026 am 6.30yh yn Festri Capel Bethlehem, Talybont**

### 1.Trafodaeth gyda Iwan Hywel Pen Swyddog Menter Iaith Gwynedd

Cafwyd trafodaeth diddorol a buddiol gyda Iwan. Fe'n cyfeiriodd at y wefan am ragor o wybodaeth. [www.menteriaithgwynedd.cymru](http://www.menteriaithgwynedd.cymru)

### 2. Presennol

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Rhydian Williams
Y Cynghorydd Lowri Evans
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Geraint Hughes

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Kevin Williams

Ddim yn bresennol Y Cynghorydd Wyn Bowen Harries ac Y Cynghorydd Alun Thomas.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Y Cadeirydd, Y Cyng. Rhydian Williams.

### 3.Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd Dafydd K Jones
Y Cynghorydd Robin Williams

### 4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 12fed o Chwefror 2026.

## 5. Materion yn codi o’r cofnodion

**5.1 Arwyddion Maes y Groes –** Gohebiaeth gan Meirion MacIntyre-Huws, 10-3-26 Mae Priffyrdd wedi addo gosod yr arwydd yn yr wythnosau/mis neu ddau nesaf.

**5.2 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen–** Y Clerc wedi wedi siarad gyda Mr Ian Morgan, Cyngor Gwynedd ar yr (11/9/25). Dim diweddariad, dal ar y rhestr waith.

**5.3 Diffyg biniau ar lwybr beicio Wîg a diffyg bin yn y Gilfan gyferbyn ar yr A55 –** Y Clerc wedi cyfarfod Mr David Charles yn y gilfan ar y 19/9/25.
Nid yw Cyngor Gwynedd yn awyddus i osod bin yn y gilfan ond mae nhw'n agored i drefnu casgliadau sbwriel rheolaidd. Trafodwyd hefyd gosod bin ar lwybr Wig. Disgwylir diweddariad am y trefniadau.
Ebost gan Gyngor Gwynedd, (Gohebiaeth eitem 1) mae’r cais wedi'i brosesu trwy ei system bwrpasol, system sgorio sy'n ystyried amryw o ffactorau. Nad yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus
Y Cyng Rhydian Williams am ymweld a’r safle.

**5.4 Terfyn Cyflymder Lon Wig -** Gohebiaeth gan Llywodraeth Cymru (Gohebaieth eitem 10) Yn dilyn eich cais am adolygiad, gallwn gadarnhau nad oes unrhyw newidiadau wedi bod ers ein diweddariad ym mis Tachwedd 2025. Mae’r rhan newydd o’r Ffordd Sirol, gan gynnwys y mynedfeydd preifat, yn dal i fod wedi'u dylunio a'u hasesu ar gyfer terfyn cyflymder o 40 mya, yn gyson â'r llwybrau cysylltu i Landygai a'r fynedfa i Hendre Hall/Fferm Tyn Hendre a'r A55. Mae lefelau'r traffig yn dal i fod yn isel iawn, yn gerbydau amaethyddol lleol gan fwyaf. Ar wahân i'r pryderon a godwyd gan y Cyngor Cymuned, nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion nac adroddiadau ychwanegol am broblemau goryrru oddi wrth randdeiliaid teithio llesol na phartïon eraill. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau i newid y terfyn cyflymder

**5.5 Sedd Wag Llanllechid Uchaf –** Dim diweddariad

**5.6 Arwydd Llwybr Tanybwlch –** Gohebiaeth gan Mr Robert Jones, Cyngor Gwynedd. Mae wedi ychwnageu y safle yma at y rhaglen arwyddo. Am rhoi arwydd ar ddechrau y ffordd/llwybr I fynu y trac, yn y gobaith fydd hyn yn gadarnhad i gerddwyr fod mynediad cyhoeddus yma. Gobeithio gwneud y gwaith yn fuan, os yw y cyllid yn caniatau.

**5.7 Lôn Goed –** Lôn wedi culhau a drain wedi gordyfu – Ebost gan Ian Morgan 11-3-26 Arolygwr ffyrdd am daro golwg. Preifat yw’r mwyafrif o gloddiau sydd gyfochrog a’r rhwydwaith ffyrdd cyhoeddus. Mae tyfiant o’r cloddiau fod wedi cael eu torri fel rhan o gylch gwaith cynnal y tir berchnogion lleol. A hynny dros gyfnod y gaeaf tra mae’r cyfyngiadau tymor nythu ddim mewn lle.

## 6. Adroddiad Cyngor Sir, Y Cyng Dafydd Meurig.

Dim adroddiad.

**7. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol;

| | | |
|---|---|---|
| Un Llais Cymru | Aelodaeth | £166 |

**8. Lwfansau**

Dosbarthwyd ffurflenni lwfansau.

**9. Y Mynydd**

**9.1 Cwt Dafydd Ross** - Y plac wedi ei chwblhau. Penderfynwyd ddefnyddio rhodd Dragon's back i dalu am y plac. Y Cyng Robin Williams wedi trefnu cael ysgythru y llechen. Bydd angen trefnu gosod ar y cwt.

**9.2 Merlod –** Abbie Edwards wedi trefnu cyfarfod i drafod Y Merlod, Nos Fawrth 19 fed o Fawrth. Trafodaeth wedi bod gyda Parc Cenedlaethol am y syniad o dalu ar y cyd am warden. Disgwylir adroddiad o'r cyfarfod.

**10. Cae Peldroed/Cae Chwarae Talybont**

- Y Clerc wedi cysylltu gyda Mr Llifon Foulkes, Cyngor Gwynedd am feinciau i'r cae chwarae. Mae'r meinciau ar gael i'w casglu.
- Y Clerc wedi dadansoddi 'r holiaduron. Adroddiad wedi ei yrru i'r Cyng Evan Jones.
- Mae coeden ar ochr y cae pêl-droed wedi'i asesu gan DE Williams ac yn cael ei hystyried yn beryglus. Y Clerc i drefnu DE Williams i dorri y goeden.
- Derbynwyd cwyn gan drigolyn Talybont am leoliad ac edrychiad y cwt ar y cae peldroed. Penderfynwyd disgwyl am gyfarfod is-bwyllgor cyn ymateb.
- Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas wedi ail agor am geisiadau.

**11. Gohebiaeth**

**Gwyl Cerdd Dant Caernarfon, Cais am rhodd –** Rhoddion wedi ei ddyrannu Mis Chwefror. Clerc i ymateb gan ofyn iddynt ail-ymgeisio am 2026/27

**Clwb Criced a Bowlio, Cais am rhodd - –** Rhoddion wedi ei ddyrannu Mis Chwefror. Clerc i ymateb gan ofyn iddynt ail-ymgeisio am 2026/27

**12. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Dim

**13. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C24/1128/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda

Cais i ymgymryd â gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
**Penderfyniad** Ar y gweill

**C25/0908/21/LL**
Bronydd isaf, Llanllechid
Cais i godi uned storio amaethyddol
Dim gwrthwynebiad

**C26/0083/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Cais i waith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
Gwrthwynebiad ar sail y nifer o goed sydd wedi ei thorri yn flaenorol

**Ceisiadau Newydd**

Dim

**14. Materion Brys/Eraill**

Bydd cyfarfod Mis Ebrill yn cael ei gynnal nos Iau 16fed ac nid y 9fed.

**Materion blaenorol**

- Shaky bridge **–** Ffens wedi torri - wedi adrodd i Gyngor Gwynedd
- Mae Llwybr Troed 34 mewn cyflwr gwael – Y Clerc wedi adrodd i Gyngor Gwynedd.

**15. Adroddiad Llais Ogwan**

- Rhoddion
- Trafodaeth Iwan Hywel